*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 933 (Cy. 227) (C. 80)

# TIROEDD COMIN, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) a Chychwyn Rhif 4 (Cymru) (Diwygio)) 2017

*Gwnaed - - - - 18 Medi 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r awdurdod cenedlaethol priodol gan adrannau 56(1) a 59(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(**1**):

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) a Chychwyn Rhif 4 (Cymru) (Diwygio)) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1965" ("*the 1965 Act*") yw Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965(**2**); ac

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Tiroedd Comin 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Darpariaethau sy'n dod i rym

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2006 i rym ar 20 Medi 2017—

(a) adran 20(1) (edrych ar wybodaeth); a

(b) adran 21(1) (copïau swyddogol).

### Darpariaethau sy'n dod i rym at bob diben sy'n weddill

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2006 i rym at bob diben sy'n weddill ar 20 Medi 2017—

(a) adran 20(2) a (3) (edrych ar wybodaeth); a

(b) adran 21(2) a (3) (copïau swyddogol).

(**1**) 2006 p. 26; diwygiwyd adran 61(1) gan baragraff 9 o Atodlen 7 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4), ac mae'n diffinio "appropriate national authority" fel Gweinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) 1965 p. 64.

**Darpariaethau trosiannol**

**4.**—(1) Mewn perthynas ag unrhyw ardal yng Nghymru, mae cyfeiriadau yn adrannau 20(1) ac 21(1) o Ddeddf 2006 at gofrestr o dir comin neu feysydd tref neu bentref, hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas â'r ardal honno, i'w cymryd fel pe baent yn gyfeiriadau at gofrestr o'r fath a gynhelir o dan adrannau 1 a 3 o Ddeddf 1965.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw ardal yng Nghymru, mae adrannau 20 ac 21 o Ddeddf 2006 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y darpariaethau hynny, hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas â'r ardal honno, i'w cymhwyso fel pe bai, yn adran 61(2)(b) o Ddeddf 2006, "sections 1 and 3 of the Commons Registration Act 1965" wedi ei roi yn lle'r geiriau "Part 1 of this Act".

**Diwygio Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2017**

**5.**—(1) Gydag effaith o 20 Medi 2017, mae Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2017(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 3 ychwaneger—

"**Estyn cymhwysiad adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 2 iddi**

**4.**—(1) Mewn perthynas ag unrhyw ardal yng Nghymru, mae cyfeiriadau yn adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y darpariaethau hynny, at gofrestr o dir comin neu feysydd tref neu bentref, hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas â'r ardal honno, i'w cymryd fel pe baent yn gyfeiriadau at gofrestr o'r fath a gynhelir o dan adrannau 1 a 3 o Ddeddf 1965.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw ardal yng Nghymru, mae adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y darpariaethau hynny, hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas â'r ardal honno, i'w cymhwyso fel pe bai, yn adran 61(2)(b) o Ddeddf 2006, "sections 1 and 3 of the Commons Registration Act 1965" wedi ei roi yn lle'r geiriau "Part 1 of this Act"."

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

18 Medi 2017

(**3**) 2017/564 (Cy. 133) (C. 51).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae erthygl 2 yn dwyn adrannau 20(1) ac 21(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") i rym o ran Cymru. Mae erthygl 3 yn dwyn gweddill adrannau 20 ac 21 o Ddeddf 2006 i rym yn llawn o ran Cymru. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer edrych ar gofrestrau o dir comin a meysydd tref a phentref a ddelir gan awdurdodau cofrestru tiroedd comin yng Nghymru, a dogfennau eraill, ac ar gyfer gwneud copïau swyddogol. Mae erthygl 4 yn cynnwys darpariaethau trosiannol.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/564 (Cy. 133) (C. 51)) er mwyn estyn cymhwysiad adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi. Mae adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, yn ymwneud â chywiro cofrestrau ac â pheidio â chofrestru neu gam-gofrestru o dan Ddeddf 1965. Yn rhinwedd y diwygiad hwn, mae cychwyn adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, wedi ei estyn i unrhyw ardal yng Nghymru pan fo, hyd nes yr amser y mae adran 1 o Ddeddf 2006 wedi ei chychwyn mewn cysylltiad â hi, Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 yn cael effaith o hyd ar gofrestriad. Mae'r estyniad hwn o gymhwysiad adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, yn cael effaith o 20 Medi 2017.

Gellir cael gwybodaeth bellach am y darpariaethau y daw'r Gorchymyn hwn â hwy i rym yn y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2006 y gellir eu gweld yn www.legislation.gov.uk.

## NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2006 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 3(5) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 4 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 5 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 6(4) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 7(4) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 8(1), (2) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 11(5), (6) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 12(a) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 13(1)(a) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 14 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 15 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 16 | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 17(1) i (2) a (4) i (9) | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 17(3), (10) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 17(3), (10) – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 19(1) i (5) a (7) | 5 Mai 2017 | 2017/564 (Cy. 133) (C. 51) |
| Adran 19(6) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 19(6) – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 5 Mai 2017 | 2017/564 (Cy. 133) (C. 51) |
| Adran 20(2), (3) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 21(2), (3) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 22 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 22 – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 5 Mai 2017 | 2017/564 (Cy. 133) (C. 51) |
| Adran 23 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 23 – at ddibenion penodol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 24 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 24 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 25 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 29(1), (6) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 31(6)(a) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 38 | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 39(1) i (5) a (7) | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 39(6) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 39(6) – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 40 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 40 – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 41 | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 42(1) i (3) a (5) | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 42(4) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 42(4) – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 43 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 43 – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 44 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 44 – at ddibenion penodol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 44 – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 45 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 46 | 1 Ebrill 2012 | 2012/806 (Cy. 113) (C. 21) |
| Adran 47 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 48 | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Adran 49 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 50(1), (4) i (6) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 51 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 52 – at ddibenion penodol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 53 – at ddibenion penodol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Adran 53 – at ddibenion penodol | 1 Rhagfyr 2010 | 2010/2356 (C. 114) |
| Adran 53 – at ddibenion penodol | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Atodlen 2, paragraffau 2(2)(d) a (3), 3(2)(e) a (3), 4(6), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(4) a 10 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 2, paragraffau 2(2)(d) a (3), 3(2)(e) a (3), 4(6), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(4) a 10 – i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym | 5 Mai 2017 | 2017/564 (Cy. 133) (C. 51) |
| Atodlen 2, paragraffau 1, 2(1) a (2)(a) i (c), 3(1) a (2)(a) i (d), 4(1) i (5), 5(1), 5(2), 6(1), 6(2), 7(1), 7(2), 8(1), 8(2) a 9(1) i (3) | 5 Mai 2017 | 2017/564 (Cy. 133) (C. 51) |
| Atodlen 3, paragraffau 2(1), (5) a (6), 4, 5, 8(2) a (3) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 3, paragraff 9 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 4, paragraff 6 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 4, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |
| Atodlen 5, paragraffau 4, 6(a), 7(1) (yn rhannol) a (5) | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 6, Rhan 1 yn rhannol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 6, Rhan 1 yn rhannol | 1 Rhagfyr 2010 | 2010/2356 (C. 114) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Atodlen 6, Rhan 2 yn rhannol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 6, Rhan 3 yn rhannol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 6, Rhan 5 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy. 197) (C. 88) |
| Atodlen 6, Rhannau 2, 3 a 5, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym | 1 Ebrill 2012 | 2012/739 (Cy. 99) (C. 19) |

Gwnaed y Gorchymyn Cychwyn a ganlyn o dan Ddeddf 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr a chan Weinidogion Cymru o ran Cymru—

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion (Cymru a Lloegr) a Chychwyn Rhif 5 (Lloegr) (Diwygio)) 2010 (2010/2356) (C. 114)

Gwnaed y Gorchmynion Cychwyn a ganlyn o dan Ddeddf 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr—

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2006 (2006/2504) (C. 84)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2007 (2007/456) (C. 17)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2007 (2007/2584) (C. 98)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4 ac Arbedion) (Lloegr) 2008 (2008/1960) (C. 94)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 5) (Lloegr) 2010 (2010/61) (C. 10)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 6) (Lloegr) 2011 (2011/2460) (C. 88)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 7, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Lloegr) 2014 (2014/3026) (C. 128)

Gweler hefyd adran 56 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ar gyfer y darpariaethau sy'n dod i rym heblaw drwy orchymyn cychwyn.